# Cwestiynau Cyffredin

## Cynnig Canolfan Ailgylchu yn y Gymuned y Gelli

### Beth ydyn ni'n ei gynnig?

Gan fod lle'n brin ar gyfer sgipiau yng Nghanolfan Ailgylchu yn y Gymuned y Gelli, mae hyn yn cyfyngu'r math o wastraff y mae modd ei dderbyn. O ganlyniad i hyn, ynghyd â'r buddsoddiadau diweddar yng nghanolfannau Dinas a Threherbert, rydyn ni'n bwriadu ei chau ar unwaith gan nad yw'n addas i'r diben bellach.

### Pam mae angen i ni newid?

Ar hyn o bryd, Canolfan y Gelli yw'r ganolfan ailgylchu yn y gymuned sy'n cael ei defnyddio lleiaf. Yn ystod 2018/19, y gyfradd oed 90 tunnell y mis ar gyfartaledd, o ganlyniad i'r lle cyfyngedig sydd ar gael ynghyd â'r cyfleusterau cyfagos, sy llawer yn well. Ym mhob un o'n canolfannau ailgylchu mwy o faint, maen nhw'n casglu dros 500 tunnell. Yng Nghanolfan Dinas, sef y safle cyfagos, caiff 700 tunnell o wastraff ei gasglu bob mis.

Mae safle ailgylchu'r Gelli hefyd yn gweithredu cyfradd ailgylchu is na'r cyfartaledd sydd eto oherwydd y llif ailgylchu cyfyngedig sydd ar y safle oherwydd y lle sydd ar gael. Nodau craidd y safleoedd yw cynorthwyo cyfraddau ailgylchu a pheidio â chynorthwyo argaeledd allfeydd ychwanegol ar gyfer ffrydiau gwastraff gweddilliol neu nad oes modd eu hailgylchu. Ar hyn o bryd, mae ein canolfan ailgylchu yn y gymuned fwyaf newydd ychydig filltiroedd yn bellach i fyny'r cwm yn Nhreherbert, yn cynhyrchu tair gwaith lefel mewnbwn y tunelledd er mai dim ond dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf y mae wedi bod yn weithredol.

### Beth yw'r dewisiadau eraill?



## A fydd hyn yn cynyddu nifer yr achosion o wastraff sy'n cael ei adael yn anghyfreithlon?

Pan gyflwynon ni'r casgliadau gwastraff does dim modd ei ailgylchu bob pythefnos, taliadau am wastraff swmpus a chyfyngiadau o ran y gwastraff ychwanegol y mae hawl gan drigolion ei roi allan i'w gasglu, dim ond cynnydd bach yn nifer yr achosion o wastraff yn cael ei adael yn anghyfreithlon oedd yn y lle cyntaf. Roedd y newidiadau yma'n effeithio ar y fwrdeistref gyfan, ond byddai cau Canolfan Ailgylchu yn y Gymuned y Gelli dim ond yn effeithio ar nifer fach o drigolion felly dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd cynydd yn nifer yr achosion o wastraff yn cael ei adael yn anghyfreithlon.

## Sut mae modd i mi gael dweud fy nweud?

Rhowch eich barn trwy anfon e-bost atom ni – ymgynghori@rctcbc.gov.uk neu ysgrifennu atom ni am ddim:

RHADBOST RSBU-HJUK-LSSS,
Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori
Y Pafiliynau,
Cwm Clydach,
CF40 2XX

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, caiff adroddiad ei ddrafftio yn amlinellu'r adborth a dderbyniwyd a'i gyflwyno i uwch reolwyr ac Aelodau'r Cabinet i'w drafod.